DULLIAU GWEITHREDU AR GYFER RHEOLI ACHOS A DYBIR SY'N TORRI DIOGELWCH DATA

1. Cyflwyniad

Dan ofynion Deddf Gwarchod Data 2018, mae'n orfodol rhoi gwybod am achos o fethu â gwarchod data os yw hynny'n debygol o arwain at risg i hawliau a rhyddid pobl. Rhaid rhoi gwybod am achosion o fethu â diogelu data i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o fewn 72 awr ar ôl i'r Brifysgol ddod i wybod amdanynt.

Rhaid i'r Brifysgol felly gymryd mesurau priodol yn erbyn prosesu data personol heb awdurdod neu'n anghyfreithlon, ac yn erbyn colli data personol drwy ddamwain, eu dinistrio neu eu difrodi.

Mae'r dulliau gweithredu hyn yn nodi sut bydd y Brifysgol yn rheoli achos y rhoddir gwybod iddynt a dybir sy'n torri diogelwch data.

Gall torri diogelwch data ddigwydd am nifer o resymau:

- Colli data neu offer ar yr hyn y cedwir y data, neu ladrad o'r cyfryw bethau
- Rheoliadau mynediad amhriodol sy'n caniatáu defnydd heb awdurdod

- Canfod a oes unrhyw beth i’w wneud i adfer unrhyw golledion a chyfyngu’r difrod y gallai’r achos o dorri diogelwch data ei achosi;
- Lle bo’n briodol, rhoi gwybod i’r heddlu.

4. Asesu Risgiau a hysbysiad pellach

Cyn penderfynu pa gamau eraill sydd eu hangen ar wahân i’r rhai a gymerwyd i atal yr achos ar unwaith, bydd y Swyddog Diogelu Data, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a’r Ysgrifennydd y Brifysgol / Pennaeth Gwasanaethau Llywodraethu, ar ran y Brifysgol, mewn ymgynghoriad â’r Deon Coleg, Pennaeth Ysgol ac/neu Gyfarwyddwr Gwasanaeth Proffesiynol perthnasol yn gwneud asesiad cychwynnol o’r risgiau a allai fod yn gysylltiedig â’r achos hwnnw.

Fel rhan o'r broses asesu hon, dylid ystyried p'un a oes angen rhoi gwybod am y digwyddiad i swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Wrth wneud yr asesiad hwn, caiff y ffactorau canlynol eu hystyried:

Pa fath o ddata sydd dan sylw?
Pa mor sensitif ydyw?
Os collwyd data neu os ydynt wedi cael eu lladrata, a oes unrhyw amddiffyniadau mewn grym megis amgryptio?
Beth sydd wedi digwydd i’r data?
Beth allai’r data ei ddweud wrth drydydd parti am yr unigolyn?
Data personol faint o unigolion yr effeithir arnynt gan yr achos?
Pwy yw’r unigolion y torrwyd diogelwch eu data?
Pa niwed allai ddod i’r unigolion hynny? A oes risgiau i ddiogelwch corfforol neu enw da, neu risg colled ariannol, neu gyfuniad o’r rhain ac elfennau eraill o’u bywyd?

5. Gwerthuso ac Ymateb

Mae'r Brifysgol yn cydnabod ei bod yn bwysig nid yn unig i ymchwilio i achosion unrhyw dorri